# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

**TEITL** **RHEOLIADAU CAFFAEL CYHOEDDUS (DIRYMU) 2025**

**DYDDIAD** **30 Ebrill 2025**

**GAN** **Y Gwir Anrhydeddus Mark Drakeford AS**

Bydd Aelodau'r Senedd yn dymuno cael gwybod fy mod wedi rhoi cydsyniad i'r Ysgrifennydd Seneddol, Swyddfa'r Cabinet arfer pŵer gwneud is-ddeddfwriaeth mewn meysydd datganoledig mewn perthynas â Chymru.

Gofynnwyd am gytundeb gan yr Ysgrifennydd Seneddol, Swyddfa'r Cabinet i wneud Offeryn Statudol (OS) o'r enw Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Dirymu) 2025.

Mae'r OS yn ymwneud â phum darn o ddeddfwriaeth a bennir yn yr Atodlen sy'n cael eu dirymu naill ai yn eu cyfanrwydd neu i'r graddau a bennir oherwydd nad ydynt bellach yn cynhyrchu unrhyw effaith gyfreithiol yng Nghymru, Lloegr na Gogledd Iwerddon.

Gosodwyd yr OS uchod gerbron Senedd y DU gan y Gweinidog dros Swyddfa’r Cabinet ar 25 Ebrill 2025 drwy arfer y pŵer a roddwyd gan Adran 14(1) o Ddeddf Cyfraith y DU a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 a bydd yn dod i rym ar 15 Mai 2025.

**Unrhyw effaith y gall yr offeryn ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru:**

Nid yw'r Rheoliadau yn lleihau nac yn tanseilio pwerau Gweinidogion Cymru mewn unrhyw ffordd, ac nid ydynt yn creu, yn diwygio nac yn dileu unrhyw swyddogaethau a roddir i Weinidogion Cymru.

Hoffwn sicrhau'r Senedd mai polisi Llywodraeth Cymru fel arfer yw deddfu dros Gymru ar faterion o fewn maes lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. Fodd bynnag, mewn rhai amgylchiadau, mae manteision i gydweithio â Llywodraeth y DU pan fo sail resymegol glir dros wneud hynny. Ar yr achlysur hwn, felly, rwy'n rhoi fy nghydsyniad i'r Rheoliadau hyn am resymau effeithlonrwydd a chydgysylltiad trawslywodraethol, a chysondeb.

Mae'r Rheoliadau i'w gweld yma: Rheoliadau Caffael Cyhoeddus (Dirymu) 2025